

10 Rhagfyr 2018

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

Yn dilyn sesiwn graffu Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, yr aethoch iddi ar 21 Tachwedd 2018, hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y pwyntiau a ganlyn.

### **Bod yn barod ar gyfer Brexit**

Clywodd y Pwyllgor nad oedd dim cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer trosglwyddo i amgylchedd ôl-Brexit, a bod Ysgrifennydd y Cabinet yn dibynnu ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod arian ar gael i gynorthwyo i drosglwyddo i amgylchedd ar ôl ymadael â'r UE.<sup>1</sup>

O ystyried yr ansicrwydd sy'n ymwneud â Brexit wrth ysgrifennu, y cyfan y gall y Pwyllgor ei wneud yw adolygu'r sefyllfa hon yn ei waith craffu ariannol yn ystod y flwyddyn.

### **Teithio Llesol**

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i anfon nodyn ar y canllawiau a'r meini prawf, yn seiliedig ar y Mapiau Rhwydwaith Integredig a gynhyrchwyd gan awdurdodau lleol, a ddefnyddir i ddyrannu cyllid o'r Gronfa Teithio Llesol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael rhagor o eglurhad ar sut mae'r cyllid hwn yn cysylltu â ffrydiau cyllid teithio llesol eraill (gan gynnwys y rhai y tu allan i'r MEG Trafnidiaeth).

Cynigiodd Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu nodyn ar yr arweiniad sy'n llywio'r gwir fuddsoddiad ac yna sut y caiff ei fonitro.<sup>2</sup> Bydd hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor i asesu a yw'r dull hwn yn sicrhau gwerth am arian.

---

<sup>1</sup> Llythyr at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

<sup>2</sup> Para 144, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Tachwedd 2018



## **Cyflwr y ffyrdd**

Clywodd y Pwyllgor fod y safbwynt a nodir yn ei adroddiad "Cyflwr y Ffyrdd", a oedd yn dweud y dylai'r gwaith o gynnal y rhwydwaith gael ei flaenoriaethu dros adeiladu ffyrdd newydd, wedi cael ei ystyried a'i wrthod gan Ysgrifennydd y Cabinet. Bydd rhagor o gyfleoedd i drafod hyn pan gaiff adroddiad y Pwyllgor ei drafod ar lawr y Senedd yn y flwyddyn newydd.

Yn ystod y sesiwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y £60 miliwn a ddyrannwyd i awdurdodau lleol ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd wedi'i ddyrannu drwy'r gyllideb llywodraeth leol yn y Grant Cynnal Refeniw (RSG)<sup>3</sup>. Nid yw'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i neilltuo, fel y gall awdurdodau lleol wario'r arian hwnnw ar beth bynnag maen nhw'n ei ddewis, waeth beth fo'i bwrpas. O gofio maint yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw priffyrdd lleol a ddarganfuwyd gan y Pwyllgor yn ei ymchwiliad, a'r angen am wariant ataliol er mwyn osgoi gormod o gostau a dirywiad yn y rhwydwaith yn y dyfodol, ymddengys nad oes mecanwaith i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr arian hwn yn ychwanegol at wariant presennol awdurdodau lleol. O ystyried y pwysau sydd ar gyllidebau awdurdodau lleol, credwn fod risg y gallai'r arian hwn ddisodli ymrwymadau presennol yr awdurdod lleol i ariannu gwaith cynnal a chadw, yn hytrach na chael ei ddefnyddio i ddarparu'r gwariant ychwanegol sydd ei angen. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi eglurder ynghylch sut y mae'n bwriadu sicrhau bod yr arian hwn yn ychwanegol.

## **Amharu ar y rheilffyrdd**

Mae teithwyr Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru wedi cael amhariadau sylweddol yn ystod yr hydref cyntaf i'r Gwasanaethau gynnal masnachfaint rheilffyrdd Cymru. Nid yw'n glir sut mae'r gyllideb hon yn mynd i'r afael â hyn. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd rhagor o dystiolaeth gan Trafnidiaeth Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr wythnosau diweddfaf.

## **Dyfodol Trafnidiaeth Cymru**

Lansiodd y Pwyllgor ymgynghoriad ar 26 Tachwedd i ddechrau ymchwiliad manwl sy'n edrych ar ddatblygiad, a threfniadau llywodraethu Trafnidiaeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl cyflwyno adroddiad ym mis Ebrill 2019.

---

<sup>3</sup> Para 160, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Tachwedd 2018



## Cymorth busnes a'r Gronfa Dyfodol Economaidd

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gosod cyfeiriad clir, gan symud tuag at atgyfnerthu cefnogaeth fusnes o ran y Gronfa Dyfodol Economaidd. Er bod y Pwyllgor yn cytuno y bydd hyn yn sicrhau bod chwilio am gefnogaeth yn symlach ar gyfer busnes, mae yna golled gyfatebol o ran tryloywder i'r rhai sy'n ceisio craffu ar Lywodraeth Cymru.

Er bod cyfuno ffrydiau ariannu yn waith ar y gweill, nid oes dyddiad cadarn ar gyfer y cyfuno. Siaradodd Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion lawer iawn am bwysigrwydd "ystwythder" a "hyblygrwydd". I'r Aelodau sy'n ceisio craffu ar weithgarwch y Llywodraeth, mae'r rhinweddau hyn yn anodd i graffu arnynt ac mae perygl y gallent golli tryloywder.

Mae'r Pwyllgor yn nodi mai dim ond 8 y cant o'r cyllid cymorth busnes sy'n cael ei ddyrannu drwy'r Gronfa Dyfodol Economaidd ar hyn o bryd. Felly, nid yw mwy na 90 y cant o reidrwydd yn cymhwyso'r athroniaeth "rhywbeth am rywbeth" y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hyrwyddo, yn gywir, yn ei gontract economaidd ac o ran y Gronfa Dyfodol Economaidd. Pan holwyd ef yn benodol ynghylch amseru, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn bwysicach ei wneud yn iawn nag ydyw i'w wneud yfory. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ffydd mawr yn y "model gweithredu newydd" lle mae'n rhaid i gwmnïau ymuno â'r Contract Economaidd fel amod o dderbyn cefnogaeth gan y Llywodraeth. Os yw'r mwyafrif llethol o gyllid Llywodraeth Cymru ar gael y tu allan i'r Gronfa Dyfodol Economaidd, yna ni fydd llawer o gymhelliant i gwmnïau ymuno â'r Contract Economaidd.

Hoffai'r Pwyllgor weld rhagor o frys wrth symud tuag at weld cyfran fwy o arian yn mynd drwy'r Gronfa Dyfodol Economaidd, a byddai'n annog Llywodraeth Cymru i ystyried y ffordd orau i sicrhau bod y dyraniadau, a'r canlyniadau a gyflawnir gan y gronfa gyfunol yn agored ac yn dryloyw.

Yn ystod y drafodaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi cytuno i ddarparu nodyn briffio ar y broses o asesu, ac yna ymuno â'r Contract<sup>4</sup>. Mae hefyd wedi ymrwmo i rannu enghraifft ddiennw o'r Contract Economaidd. Nid yw'r Pwyllgor wedi cael y dogfennau hyn eto.

---

<sup>4</sup> Para 316, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Tachwedd 2018



## Yr economi sylfaenol

Roedd y Pwyllgor yn bryderus o glywed nad oedd dim cynnydd wedi'i wneud o ran gwario arian a ymrwymwyd i gefnogi'r cam o alluogi'r economi sylfaenol yng Nghymru, ac mai aneglur oedd y cynlluniau i'w wario yn y flwyddyn i ddod.


Mae'r Pwyllgor wedi ymddiddori'n fawr yn y maes hwn, ac mae'n edrych ymlaen at glywed pa gynlluniau peilot fydd yn cael eu datblygu. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal rhagor o waith craffu yn y flwyddyn newydd, ar ôl cyhoeddi'r cynllun galluogi ar gyfer yr Economi Sylfaenol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor o'r blaen<sup>5</sup> ei fod yn disgwyl y byddai'r cynllun galluogi drafft wedi'i gyhoeddi i ymgynghori yn ei gylch ym mis Rhagfyr. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael cadarnhad mai dyma amserlen arfaethedig Ysgrifennydd y Cabinet o hyd.

## Materion heb eu cyrraedd

Oherwydd bod y sesiwn yn fyrrach nag y cytunwyd ar y cychwyn, roedd nifer o faterion heb eu cyrraedd yn ystod ein sesiwn graffu ar y gyllideb. Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch nifer o faterion a bydd yn cyhoeddi'r ymatebion maes o law.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,



Russell George,  
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

---

<sup>5</sup> Papur ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 19 Medi.

